Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Tipio anghyfreithlon yng Nghymru

## Briff Ymchwil

Tachwedd 2025




www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Tipio anghyfreithlon yng Nghymru
Briff Ymchwil

Tachwedd 2025

**Awdur:**
Liesl van de Vyver Blackman

Mae Ymchwil y Senedd yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Liesl van de Vyer Blackman gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol a alluogodd y briff ymchwil hwn i gael ei gwblhau.

Mae tipio anghyfreithlon yn drosedd ac mae'n cyfeirio at wastraff sy'n cael ei adael yn anghyfreithlon ar dir. Mae'n peri bygythiad i gymunedau a bywyd gwyllt, ac mae'n  cael effaith negyddol ar iechyd meddwl oherwydd dirywiad yn ansawdd amgylcheddol cymunedau lleol.

Mae'r briff ymchwil hwn yn rhoi cyflwyniad i dipio anghyfreithlon yng Nghymru. Mae'n trafod trosedd tipio anghyfreithlon, yn ogystal a effeithiau ac achosion y drosedd. Mae'n rhoi trosolwg o strategaethau tipio anghyfreithlon cyfredol a blaenorol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â bwrw golwg ar faint y broblem o dipio anghyfreithlon yng Nghymru heddiw.

Mae'n ystyried y cosbau a'r camau gorfodi sy'n gysylltiedig â thipio anghyfreithlon, yn ogystal â phwy sy'n gyfrifol am eu gorfodi. Mae'r briff hwn hefyd yn trafod pwysigrwydd camau gorfodi a newidiadau diweddar i reoliadau tipio anghyfreithlon.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad i dipio anghyfreithlon .......... 1**

Tipio anghyfreithlon fel trosedd .......... 1

Effeithiau tipio anghyfreithlon .......... 1

Achosion tipio anghyfreithlon .......... 2

Achosion uniongyrchol .......... 2

Achosion anuniongyrchol .......... 2

Strategaethau tipio anghyfreithlon blaenorol Llywodraeth Cymru .......... 3

Strategaethau tipio anghyfreithlon 2007-2015 .......... 3

Strategaeth tipio anghyfreithlon ers 2021 .......... 4

Grŵp Trawsbleidiol ar Daflu Sbwriel, Tipio Anghyfreithlon a Lleihau Gwastraff .......... 4

**2. Maint y broblem o dipio anghyfreithlon yng Nghymru .......... 6**

Casglu data am dipio anghyfreithlon .......... 8

**3. Cosbau am dipio anghyfreithlon a chamau gorfodi .......... 10**

Cosbau am dipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel .......... 10

Erlyniadau a chamau gorfodi .......... 10

**4. Cyfrifoldebau ..........................................................................13**

Camau gorfodi gan awdurdodau lleol ..........................................................13

Rheoliadau newydd a'r Uned Ar y Cyd ar gyfer Troseddau Gwastraff .13

# 1. Cyflwyniad i dipio anghyfreithlon

## Tipio anghyfreithlon fel trosedd

Tipio anghyfreithlon yw'r term cyffredin a ddefnyddir i ddisgrifio **gwastraff sy'n cael ei adael yn anghyfreithlon ar dir**. Mae hyn yn cyfeirio at ddympio **gwastraff mewn lleoliad heblaw safle sbwriel awdurdodedig.**

Mae tipio anghyfreithlon yn drosedd o dan adran 33 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (Deddf 1990):

> a person shall not… deposit controlled waste, or knowingly cause or knowingly permit controlled waste to be deposited in or on any land unless a waste management licence authorising the deposit is in force and the deposit is in accordance with the licence.

Ar ben hynny, o dan **adran 34 o Ddeddf 1990**, mae dyletswydd ar berchnogion tai a busnesau i sicrhau bod eu gwastraff yn cael ei waredu'n gywir. Er enghraifft, bydd angen i ddeiliad tŷ wirio a yw'r person y maent wedi rhoi eu gwastraff iddo wedi'i awdurdodi i'w waredu (h.y. a oes ganddynt drwydded cludo gwastraff) neu nad ydynt yn gwaredu gwastraff mewn unrhyw fan heblaw am domen sbwriel awdurdodedig.

## Effeithiau tipio anghyfreithlon

Mae tipio anghyfreithlon yn peri bygythiad i gymunedau a bywyd gwyllt drwy **trosglwyddo clefydau, llygredd, halogiad pridd a gwneud ardaloedd yn fwy agored i ddraenio a llifogydd**. Gall ansawdd amgylcheddol gwael mewn cymunedau lleol o ganlyniad i dipio anghyfreithlon hefyd gael **effaith negyddol ar iechyd meddwl a llesiant pobl, ac arwain at gynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol**, sy'n aml yn effeithio'n anghymesur ar gymunedau mwy difreintiedig.

Mewn rhai ardaloedd o Gymru, dywed trigolion fod lefel y tipio anghyfreithlon yn achosi problemau o ran **gwerthu eu cartrefi**, ac mae rhai **trigolion yn dweud eu bod wedi rhoi'r gorau i hysbysu am achosion o dipio anghyfreithlon** oherwydd diffyg gweithredu gan gynghorau.

Er bod achosion o dipio anghyfreithlon **wedi gostwng ers 2006**, gwariodd awdurdodau lleol Cymru bron i **£2 filiwn** ar glirio achosion o dipio anghyfreithlon yn 2023-24, a gwariwyd dros **£65 miliwn** ar lanhau strydoedd yn yr un cyfnod. Mae'n bwysig nodi bod ffigurau gwariant ar dipio anghyfreithlon **efallai'n eithrio'r gost y**

**mae tirfeddianwyr preifat yn ei hysgwyddo** wrth gael gwared ar wastraff o'u tir.

Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae **effeithiau economaidd a chymdeithasol** ehangach tipio anghyfreithlon yn cynnwys gostyngiad mewn twristiaeth mewn economïau lleol oherwydd effaith weledol negyddol sbwriel a thipio anghyfreithlon. Mae colli deunyddiau ailgylchadwy neu ailddefnyddiadwy hefyd yn tynnu oddi wrth nod Llywodraeth Cymru o sefydlu **economi gylchol yng Nghymru.**

## Achosion tipio anghyfreithlon

Mae achosion tipio anghyfreithlon yn **amrywiol a gallant gynnwys ffactorau fel:**

- elw neu arbedion ariannol gan y troseddwr;
- diffyg cyfleusterau gwaredu gwastraff neu fynediad atynt; a
- diogi ac agwedd mai problem i rywun arall yw clirio'r gwastraff.

### Achosion uniongyrchol

Gall tipio anghyfreithlon ddechrau ar raddfa fach gydag unigolion yn taflu sbwriel; canfu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fod **25% o boblogaeth Cymru yn teimlo ei bod yn dderbyniol gollwng neu adael rhywbeth os nad oes bin gerllaw.**

Mae **gwastraff sy'n gysylltiedig â busnes** yn achos cyffredin o dipio anghyfreithlon ar raddfa fwy. Er enghraifft, gall busnesau a diwydiannau gynhyrchu symiau mawr o wastraff a bydd rhai yn dewis tipio'n anghyfreithlon yn hytrach na thalu i'w waredu'n ddiogel. Lle mae cwmnïau'n talu am waredu, bydd rhai cwmnïau gwastraff yn codi tâl i gael gwared ar y gwastraff ond yna'n ei ddympio'n anghyfreithlon er mwyn osgoi costau cyfleuster gwastraff awdurdodedig.

### Achosion anuniongyrchol

Dywed CNC fod **y cyllidebau llai sydd gan awdurdodau lleol, gan arwain at ostyngiad o ran gwaredu sbwriel a gwagio biniau gwastraff cyhoeddus**, yn achos anuniongyrchol tipio anghyfreithlon. Mae hyn yn cael sgil-effeithiau sy'n golygu y gall sbwriel gael ei wasgaru drwy ddulliau eraill, er enghraifft, y gwynt yn chwythu sbwriel allan o finiau, neu anifeiliaid yn tynnu sbwriel allan o finiau llawn.

Bu gostyngiad o ran pa mor aml y caiff gwastraff cyffredinol cartrefi ei gasglu ledled Cymru oherwydd **y flaenoriaeth i ailgylchu**. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol bellach yn **casglu gwastraff cyffredinol bob pythefnos, bob tair wythnos neu bob mis.**

Mae canolfannau ailgylchu gwastraff cartref yn chwarae rhan hanfodol o ran mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon gan mai nhw yw'r **unig gyrchfan amgen** i unrhyw wastraff na chaiff ei gasglu fel rhan o gasgliadau gwastraff cyffredinol. Ceir problemau gyda chanolfannau ailgylchu gwastraff cartref a all arwain at gynnydd mewn achosion o dipio anghyfreithlon. Mewn **adroddiad yn 2022** ar dipio anghyfreithlon, dywedodd Cadwch Gymru'n Daclus:

> Like any other service, the experience of attending a HWRC will not only dictate future willingness to engage with the service but will be heavily influenced by and through the experience of other users in the area [...] Some social media discussions have even seen people defending fly-tipping because of actual (or perceived) challenges to using the local recycling centre.

**Mae rheolau ar gyfer defnyddio canolfannau ailgylchu gwastraff cartref hefyd yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Mae rhwystrau** megis systemau archebu newydd neu anghyfarwydd, newidiadau o ran oriau agor, cau mwy o ganolfannau ailgylchu gwastraff cartref lleol, a chyfyngiadau ar ymweliadau yn golygu bod 4**5% o'r ymatebwyr i arolwg Cadwch Gymru'n Daclus yn 2021** a oedd wedi ymweld â'u canolfan ailgylchu yn nodi eu bod wedi cael problem wrth waredu eu gwastraff.

## Strategaethau tipio anghyfreithlon blaenorol Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi anelu'n bennaf at fynd i'r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon yng Nghymru drwy **gefnogi a grymuso cymunedau i fynd i'r afael â materion ar lefel leol**. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, grwpiau cymunedol, sefydliadau'r trydydd sector fel Cadwch Gymru'n Daclus a chyrff fel CNC. Yn ogystal â hyn, mae'r **ymgyrch dyletswydd i ofalu** a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn ceisio dylanwadu ar newid ymddygiad ar raddfa fawr ar y lefel genedlaethol, ond mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bu hyn yn anodd gan ei fod yn gofyn am gyflwyno **dull cyson a chydlynol** ledled Cymru.

### Strategaethau tipio anghyfreithlon 2007-2015

**Yn 2007, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Tipio Anghyfreithlon** ac arianodd fenter pum mlynedd **Taclo Tipio Cymru**. Dilynwyd hyn gan ymgynghoriadau yn **2012-13** a **2014**, a arweiniodd at ddogfen strategaeth yn 2015 – **Cymru Ddi-dipio**. Gweithiodd y strategaeth tuag at bedwar canlyniad:

- ymrwymiad gan bob sefydliad allweddol yng Nghymru i ddileu tipio anghyfreithlon;

- dealltwriaeth eang bod tipio anghyfreithlon yn annerbyniol mewn cymdeithas;
- haws i bobl ddelio â'u gwastraff mewn ffordd gyfrifol; ac
- unrhyw un sy'n tipio'n anghyfreithlon yn cael ei ddal a'i gosbi'n briodol.

### Strategaeth tipio anghyfreithlon ers 2021

Yn 2021, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad arall – **Cymru Ddi-sbwriel a Di-dipio** – a oedd yn gofyn am farn ar y cyfuniad o'r **strategaeth flaenorol** ar dipio anghyfreithlon gyda'r uchelgais i fynd i'r afael â sbwriel, ac â ffocws ar bum thema allweddol ar gyfer atal sbwriel a thipio anghyfreithlon:

- lleihau gwastraff
- tystiolaeth, monitro a gwerthuso;
- addysg a newid ymddygiad;
- gorfodaeth effeithiol; a
- chyflawni gweithredol effeithlon.

Yn dilyn ei hymgynghoriad yn 2021, sefydlodd Llywodraeth Cymru **grŵp data a thystiolaeth** ac ailddatganodd ei hymrwymiad i fynd i'r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon o dan un cynllun.

Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi **cynyddu'r cyllid ar gyfer Taclo Tipio Cymru a Cadwch Gymru'n Daclus yn 2024**, ac ym mis Gorffennaf 2025, gwnaeth **ddatganiad ysgrifenedig ynghylch sbwriel a thipio anghyfreithlon**. Yn y datganiad, dywed Llywodraeth Cymru y bydd yn parhau i ddarparu cyllid grant i bartneriaid fel Taclo Tipio Cymru a Cadwch Gymru'n Daclus, a bydd yn helpu awdurdodau lleol a Taclo Tipio Cymru i ehangu eu galluoedd gorfodi. Mae hefyd yn dweud ei fod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i "nodi a hyrwyddo enghreifftiau o arferion da a chysondeb wrth fynd i'r afael ag ansawdd amgylcheddol lleol gwael".

## Grŵp Trawsbleidiol ar Daflu Sbwriel, Tipio Anghyfreithlon a Lleihau Gwastraff

Ffurfiwyd **Grŵp Trawsbleidiol ar Daflu Sbwriel, Tipio Anghyfreithlon a Lleihau Gwastraff y Senedd er mwyn:**

> …dwyn ynghyd sefydliadau a phenderfynwyr allweddol o bob rhan o Gymru i nodi a hyrwyddo arfer gorau, datblygu camau gweithredu ac argymhellion deddfwriaethol i Lywodraeth Cymru a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion allweddol a mentrau.

Ar hyn o bryd mae'r grŵp trawsbleidiol yn cynnwys Aelodau o'r Senedd a chynrychiolwyr o **Cyfoeth Naturiol Cymru**, **Cadwch Cymru'n Daclus**, **Cyfeillion y Ddaear Cymru**, **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLLC)** a **Casglwyr Sbwriel Beddau.**


Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd y grŵp trawsbleidiol gynigion maniffesto o'r enw **"Which Wales do we want to see?".** Dywedodd **Prif Swyddog Gweithredol Cadwch Gymru'n Daclus** ei fod yn gobeithio y bydd y cynigion o gymorth i bob plaid wleidyddol yn y Senedd wrth lunio eu maniffestos ar gyfer etholiad y Senedd 2026.

# 2. Maint y broblem o dipio anghyfreithlon yng Nghymru

Mae **Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data** am nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd a ble y digwyddodd y rhain. Cafodd ansawdd y data a ddefnyddiwyd yn yr adran hon **eu hadolygu gan Lywodraeth Cymru yn 2023**, ac fe'u hystyrir yn fanylach ar ddiwedd y bennod hon.


Bu gostyngiad yn nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd yng Nghymru, o 61,995 yn 2007-08 i'r lefel isaf o 31,713 yn 2014-15. Fodd bynnag, maent wedi cynyddu ers hynny, gan gyrraedd 42,171 yn 2023-24.

**Ffigur 1.** Achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd a chamau gweithredu dethol gan Lywodraeth Cymru, 2006-2024




Ffynhonnell: **StatsCymru**

**Ffigur 2.** Achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd yn ôl awdurdod lleol, 2023-24




Ffynhonnell: **StatsCymru**

Yn 2023-24, yr awdurdod lleol â'r **nifer fwyaf o achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd oedd Casnewydd (8,139)**, ac yna Caerdydd (5,931). Ynys Môn oedd â'r drydedd nifer uchaf o achosion a adroddwyd, er ei bod yn **ugeinfed o ran poblogaeth** ymhlith y 22 awdurdod lleol.

## Casglu data am dipio anghyfreithlon

Mae'n anodd cofnodi data am dipio anghyfreithlon, ac mae bron yn amhosibl casglu **darlun cwbl 'wir' o'r broblem** oherwydd natur y drosedd.

### Mewnbynnu data am dipio anghyfreithlon

Ym mis Ebrill 2004, aeth **WasteDataFlow**, sef system ar y we ar gyfer adrodd data gwastraff trefol, yn fyw i'w defnyddio gan awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol yn cyflwyno eu data tipio anghyfreithlon i'r system bob chwarter. Mae'r data a gyflwynir yn cynnwys gwybodaeth am faint a natur pob achos o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd, cost ymdrin â phob achos, ac unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd. Yna mae Taclo Tipio Cymru yn gwirio ansawdd y data hyn cyn eu cyhoeddi'n flynyddol ar **wefan Llywodraeth Cymru**.

Cyn WasteDataFlow, byddai holiaduron ar wahân am dipio anghyfreithlon yn cael eu hanfon at awdurdodau lleol, ac roeddent **yn aml yn ailadroddus.** Nod gwreiddiol WasteDataFlow oedd disodli'r holiaduron hyn ac yn lle hynny symud i un set ddata hanfodol a gesglir drwy ffurf fwy safonol o gasglu data.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ariannu system mapio GPS – **FlyMapper** – y mae awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i gynorthwyo'r broses gofnodi gan ei bod yn galluogi casglu data gofodol a gweledol ychwanegol.

### Adolygiad ansawdd data

Yn 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **adolygiad ansawdd o ddata am dipio anghyfreithlon a gofnodwyd gan awdurdodau lleol**. Trafododd yr adroddiad gryfderau a chyfyngiadau'r data.

Mae cyfyngiadau'r data yn cynnwys anghysondebau yn y ffordd y caiff data eu cofnodi mewn awdurdodau lleol, er enghraifft, gwahaniaethau mewn amcangyfrifon maint a'r ffaith na chaiff union leoliad y digwyddiad ei gofnodi. Yn ogystal â hyn, credir nad yw tipio anghyfreithlon ar dir preifat yn cael ei adrodd yn ddigonol, felly efallai nad oes darlun llawn o bob achos o dipio anghyfreithlon.

Wrth edrych ar y data, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r ffigurau oherwydd **newidiadau a gwelliannau yn y mecanweithiau adrodd data a'r canllawiau cysylltiedig.**

Ar ben hynny, mae nifer y camau ymchwilio wedi gostwng dros amser, ond gallai hyn fod oherwydd canllawiau llymach ynghylch pa gamau y mae modd eu cynnwys. Er enghraifft, dim ond pan fyddant wedi cael eu hanfon at y troseddwr mewn perthynas ag achos penodol o dipio anghyfreithlon y dylid cynnwys llythyrau rhybudd.

Ers yr adroddiad ansawdd, **cyflwynwyd mesurau dilysu** pellach i'r broses mewnbynnu data mewn awdurdodau lleol. Am wybodaeth fanylach ynghylch ansawdd data am dipio anghyfreithlon yng Nghymru, gweler yr **adran 'ansawdd' yn adroddiad 2023.**

# 3. Cosbau am dipio anghyfreithlon a chamau gorfodi

## Cosbau am dipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel

Mae tipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel yn droseddau, gyda'r gwahaniaeth rhwng troseddau, ac unrhyw gosbau dilynol, **fel arfer yn seiliedig ar faint y gwastraff.**

Mae sbwriel wedi'i ddeddfu ar ei gyfer o dan **ran IV o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990** (fel y'i diwygiwyd gan y **Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005**), ac mae tipio anghyfreithlon yn dod o dan **ran II o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990** (fel y'i diwygiwyd gan **Reoliadau Dyddodi Gwastraff Heb Awdurdod (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2017).**

Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod dirwy uchaf am daflu sbwriel o hyd at £2500 trwy hysbysiad cosb sefydlog. Mae gan awdurdodau lleol y pŵer i bennu lefel y ddirwy a fydd yn gymwys yn eu hardal, gyda swm diofyn safonol o £75 os dewisant beidio â gwneud hynny.

Yn achos troseddau tipio anghyfreithlon, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi mai'r gosb uchaf mewn Llys Ynadon yw dirwy ddiderfyn a/neu 12 mis o garchar. Mae modd cosbi troseddau yr ymdrinnir â nhw yn Llys y Goron drwy ddirwy ddiderfyn a/neu 5 mlynedd o garchar. Gall y Llys hefyd wneud gorchymyn:


- yn ei gwneud yn ofynnol i'r troseddwr dalu'r costau sy'n gysylltiedig â chamau gorfodi'r achos ac ymchwilio iddo;
- yn caniatáu atafaelu unrhyw gerbydau a oedd yn rhan o'r drosedd; ac
- yn gorchymyn i'r troseddwr dalu costau gwaredu'r gwastraff a ddyddodwyd yn anghyfreithlon (tipio anghyfreithlon).

Mae yna amrywiaeth o gosbau eraill posibl am droseddau tipio anghyfreithlon, er enghraifft gwaharddiadau gyrru, cyrffyw â thag electronig a gwasanaeth cymunedol.

## Erlyniadau a chamau gorfodi

Mae nifer yr erlyniadau am dipio anghyfreithlon ers 2006 wedi amrywio o 18 (yn 2020-21) i 122 (2018-19). Mae'n debyg bod y nifer isel yn 2020-21 oherwydd y pandemig Covid-19.

**Ffigur 3**. Canlyniadau erlyniadau am dipio anghyfreithlon, 2006-2024





*Mae'r siart arwynebedd wedi'i bentyrru hon yn dangos sut mae gwahanol gategorïau'n cyfrannu at gyfanswm dros amser — mae'r cyfanswm uchder yn cynrychioli swm yr holl gategorïau, gyda phob band lliw yn dangos cyfran y categori hwnnw o'r cyfanswm. Trwch lliw, nid ei uchder o'r llinell sylfaen, sy'n dangos faint y mae'n cyfrannu ym mhob blwyddyn. Er enghraifft, yn 2023-24, roedd 102 o ganlyniadau erlyniadau: o'r rhain, rhyddhau'n absoliwt/amodol oedd 2, dirprwyon oedd 70, ac erlyniadau (llwyddiannus) eraill oedd 30.*

Ffynhonnell: **StatsCymru**

Mae'r mathau o gosb a ddefnyddir wedi newid dros amser. Er mai dirwyon yw'r canlyniad mwyaf cyffredin o hyd, mae rhyddhau diamod/amodol a gwasanaeth cymunedol wedi gostwng. Mae 'Arall (llwyddiannus)' yn cyfeirio at **unrhyw ganlyniadau cadarnhaol eraill a ddyfarnwyd gan y llys yn ystod y cyfnod hwn.**

Mae lefel y camau gorfodi a gymerwyd wedi aros yn fwy cyson ers 2006, gyda gwaith ymchwilio yn cyfrif am gyfran fawr o gyfanswm y camau gorfodi. Hefyd, caiff llythyrau rhybudd ac arolygiadau dyletswydd i ofalu (**gofyn i fusnesau ddangos nodiadau trosglwyddo gwastraff neu ymchwilio i aelwydydd am amheuaeth o dorri eu dyletswydd**) eu defnyddio'n gyffredin.

**Ffigur 4** Nifer y camau gorfodi am dipio anghyfreithlon, 2006-2024




*Mae'r siart arwynebedd wedi'i bentyrru hon yn dangos sut mae gwahanol gategorïau'n cyfrannu at gyfanswm dros amser — mae'r cyfanswm uchder yn cynrychioli swm yr holl gategorïau, gyda phob band lliw yn dangos cyfran y categori hwnnw o'r cyfanswm. Trwch lliw, nid ei uchder o'r llinell sylfaen, sy'n dangos faint y mae'n cyfrannu ym mhob blwyddyn. Er enghraifft, yn 2023-24, roedd dros 23,000 o ymchwiliadau, 384 llythyr rhybudd, 163 hysbysiad statudol, dros 1,000 o hysbysiadau cosb benodedig, 448 arolygiad dyletswydd gofal, 63 stopio a chwilio, 3 rhybuddiad ffurfiol, a 102 erlyniad*

Ffynhonnell: **StatsCymru**

# 4. Cyfrifoldebau

## Camau gorfodi gan awdurdodau lleol

**Nid oes dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ymchwilio i dipio anghyfreithlon**, a all arwain at adnoddau ar gyfer camau gorfodi yn dod yn ail i ddyletswyddau fel casglu a gwaredu gwastraff cartref.

Mae swyddogion gorfodi awdurdodau lleol yn gyfrifol am roi cosbau yn ogystal â chynnig mwy o addysg ac ymgysylltiad ynghylch y mater.

Canfu **adroddiad Cadwch Gymru'n Daclus yn 2022** fod nifer y swyddogion gorfodi a gyflogir gan awdurdodau lleol yn amrywio o 0 i 15, gyda rhwng dau a thri ar gyfartaledd. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod yr amrywiad yn nifer y swyddogion gorfodi yn arwyddocaol oherwydd bod:

> … effeithiolrwydd gorfodi fel dull o atal ymddygiad [yn] gwbl ddibynnol ar y gred o gael eich dal. Heb bresenoldeb gweladwy eang, mae'n anodd cadarnhau'r gred hon.

Mae **casglu tystiolaeth ar gyfer erlyniad llwyddiannus** hefyd yn cymryd llawer o amser ac arian, ond yn ôl **Cadwch Cymru'n Daclus**, gall y cosbau sy'n cael eu gosod gan y llysoedd fod yn amrywiol a dywed yn aml nad ydynt yn anfon negeseuon digon cryf am y drosedd sy'n cael ei chyflawni.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi galw am **hyfforddiant i ynadon ynghylch troseddau amgylcheddol** i gynyddu'r ddealltwriaeth o effeithiau tipio anghyfreithlon ac i helpu i wella cysondeb y dull gweithredu ledled Cymru.

## Rheoliadau newydd a'r Uned Ar y Cyd ar gyfer Troseddau Gwastraff

Yn 2018, fe wnaeth y **Rheoliadau Gorfodaeth Gwastraff (Cymru a Lloegr)** ddarparu dau bŵer newydd:

- Y pŵer i awdurdodau rheoleiddio gwastraff (Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr a Cyfoeth Naturiol Cymru) ac awdurdodau casglu gwastraff (awdurdodau lleol) gyflwyno hysbysiad i berchennog neu feddiannydd i waredu gwastraff sy'n cael ei gadw neu ei waredu'n anghyfreithlon, waeth a gafodd ei ddyddodi'n gyfreithlon yn wreiddiol ai peidio.
- Y pŵer i awdurdodau rheoleiddio gwastraff gyfyngu ar fynediad a mewnforio gwastraff i fangreoedd sydd, neu a oedd, yn gyfleuster gwastraff rheoleiddiedig

neu eithriedig am hyd at 72 awr drwy gyflwyno hysbysiad cyfyngu.

Hefyd, yn **2018, fe wnaeth adolygiad annibynnol o droseddau difrifol a chyfundrefnol yn y sector gwastraff,** a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, argymell sefydlu Uned Ar y Cyd ar gyfer Troseddau Gwastraff dan arweiniad y rheoleiddwyr amgylcheddol gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith o bob un o'r llywodraethau datganoledig.

Sefydlwyd yr Uned Ar y Cyd ar gyfer Troseddau yn 2020 ac mae ganddi wyth partner, gan gynnwys **Asiantaeth yr Amgylchedd**, **Cyfoeth Naturiol Cymru**, **yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol**, a **Heddlu Trafnidiaeth Prydain**.

Dywed yr Uned Ar y Cyd ar gyfer Troseddau mai ei blaenoriaethau yw:

- Paratoi – lleihau effaith troseddau gwastraff lle maent yn digwydd.
- Atal – atal pobl rhag ymwneud â throseddu difrifol a chyfundrefnol.
- Diogelu – diogelu seilwaith, amgylchedd a chymunedau hanfodol y DU.
- Erlid – erlyn a tharfu ar bobl sy'n ymwneud â throseddau difrifol a chyfundrefnol.

Yn ei **hadroddiad diwedd blwyddyn 2024-25**, dywedodd yr Uned Ar y Cyd ar gyfer Troseddau ei bod wedi arwain neu gefnogi 34 o weithrediadau, trefnu a/neu wedi mynychu 70 diwrnod o weithredu, cefnogi 13 o arestiadau ar y dyddiau gweithredu hyn a chyflwyno 40 o gyflwyniadau codi ymwybyddiaeth neu hyfforddiant. Ni nododd faint, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn a gynhaliwyd yng Nghymru.